

## CYNGOR CYMUNED PENNAL

### **Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Fawrth yr 11eg o Orffennaf am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Kenneth Griffiths, Hywel Evans, Meirion Roberts, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd James Brunton. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Aled Rees. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

Darllenwyd gerdyn diolch gan y cyn Clerc Deilwen Breese yn cyfeirio at noson arbennig yn y Glan lle cyflwynwyd llun hardd iddi, ac roedd yn dymuno'r gorau i'r Cyngor i'r dyfodol.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ar yr 19eg o Fai ar gynnig Cyng. Meirion Roberts a'i eilio gan William Rees.

#### **4. Materion yn codi – ac hefyd cyfeiriwyd at y materion canlynol;**

- Tir ger Graiandy – adroddwyd ymateb Syrfeur stadau Cyngor Gwynedd yn dweud fod y tir wedi ei drosgwlyddo i Gymdeithas Tai Adra ers 2010. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn hyn ymlaen at Adra i ofyn beth yw eu safbwynt hwy ar y mater.
- Dreaniau yn y pentref – adroddodd ymateb i'r Clerc, a bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Sion Wilkes. Roedd y draeniau wedi eu glanhau, ac roedd cynllun ar bapur ar sut y maent yn gweithio.
- Nodwyd ymateb Cyngor Gwynedd am y dwr yn troi tua ochr y ffordd oherwydd camber o flaen Ty Alys – nid oeddynt yn gweld hyn yn broblem, ac roedd y draen o flaen Ty Alys ar dir preifat.
- Mynwent yr Eglwys – adroddwyd y diweddaraf am y fynwent yma a oedd ym mherchnogaeth yr Eglwys. Roedd cytundeb wedi ei wneud y byddai rhaid cael sicrwydd o gael yr holl goed wedi eu torri cyn y gallai y Cyngor Cymuned ystyried cymryd trosodd y cyfrifoldeb am y safle. Byddai rhaid wedyn cysylltu gyda'r cwmni yswiriant gyda gwybodaeth yn llawn. Penderfynwyd cael cyfarfod ar y safle ar ol cyfarfod y Cyngor i ystyried ymhellach.
- Binau baw cwn - roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r warden cwn Alan Hughes, ac roedd cynnig o gyfarfod ar 26ain Gorffennaf. Gwelwyd y dylid gofyn am gyfarfod yn y wythnos ganlynol. Roedd ei ymateb yn dweud fod angen ystyried nifer o ffactorau, sef y gwir angen, maint y broblem, lleoliadau, y gost o'r gwasanaethu a'r gallu i'w gwasanaethu.
- Carafan static wedi ei lleoli yn Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy (lle roedd yn ymddangos nad oedd cais cynllunio wedi ei wneud) – diolchwyd i James Brunton am y map yn dangos union lleoliad. Roedd ymateb y Parc Cenedlaethol yn dweud nad oedd yn ymddangos fod caniatad cynllunio, ac y byddent yn edrych i mewn i hyn ymhellach i weld beth yw'r oblygiadau cynllunio.

- Archwio cyfrifon 2022-23 – roedd y cyfan wedi ei ddanfôn i Uned Archwilio Cyngor Gwynedd, ac roedd y gwaith yn parhau. Byddai'r cyfan wedyn yn cael ei ddanfôn i'r archwilydd allanol.
- Rheolau Sefydlog Un Llais Cymru – adroddodd y Clerc fod y rhain wedi eu diweddarau, a bod angen eu mabwysiadu maes o law gan y Cyngor Cymuned. Roedd y Clerc yn parhau i weithio ar hyn, a byddent yn cael eu danfon allan i bawn i gael golwg arnynt.
- Aseiad Risc y Cyngor a thorri gwair y fynwent – roedd y rhain wedi eu danfon allan i bawb ymlaenllaw. Cadarnhawyd eu bod yn gywir, ac y gellid eu mabwysiadu ar gyfer y Cyngor.

## 5. Materion Cynllunio

Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi danfon gair i Adran Gynllunio y Parc i nodi newid cyfeiriad gohebu l'r dyfodol.

Nid oedd yna faterion cynllunio i'w trafod. Gyda cheisiadau i'r dyfodol, (lle nad oedd 21 diwrnod cyn y cyfarfod canlynol) cadarnhawyd y gellid eu dosbarthu drwy e-bost i'r Cynghorwyr yn gofyn am sylwadau, ac y dylid cael o leiaf 3 Cynghorydd wedi ymateb cyn y gallai'r Clerc ddanfôn i'r Parc Cenedlaethol.

## 6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £8,187.92 a Cyfri Cadw £2,614.91.

b) Adroddwyd nad oedd ymateb eto i'r cais am newid y mandad banc I gynnwys Huw yn lle Deilwen. Cytunodd Rhys Parry I gysylltu gyda Barclays i gael diweddariad.

c) Cytunwyd I dalu y cydnabyddiaeth y Clerc am y 3 mis cyntaf, sef £500.19, ac hefyd y taliad i HMRC sef £124.80. Hefyd beth oedd yn ddyledus i HMRC yng nghyswllt cydnabyddiaeth Deilwen, sef £200. (sef beth oedd yn ddyledus yn dilyn cyflog Medi 2022 – Mawrth 2023 sef £600, a Mawrth – Mai 2023 sef £200.) Hefyd roedd cyflog Deilwen yn Tachwedd 2022 wedi ei dalu yn net (sef £1200) ac roedd y cyfrifydd wedi nodi hyn fel gross. Felly roedd £60 I HMRC hefyd yn ddyledus yn ychwanegol. (cyfanswm felly I HMRC o £384.80.)

Yn y cyswllt yma hefyd, rhoddwyd eglurhad llawn am y taliad o £762.08 a dalwyd I HMRC yn Chwefror 2023, a £240.74 a dalwyd I HMRC yn Mawrth 2023.

d) Cytunwyd i dalu cost ymuno gyda Un Llais Cymru am 2023-24, sef cyfanswm o £95.

e) Adroddwy am e-bost gan Katie o Ganolfan Pennal yn gofyn am gymorth tuag at y gost o wi-fi l'r ganolfan sef cyfanswm o £36.37 y mis/ £436.44 y flwyddyn – swm na allai y Ganolfan ei fforddio. Trafodwyd hyn, a gwelwyd fod y gost yn uchel am y ddarpariaeth. Dywedodd Meirion Roberts y byddai yn ymdrin a hyn.

## 7. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd fanylion am gynllun Rhannu Cartref Cyngor Gwynedd, a darllenwyd llythyr Richard Wyn Williams am y mater.

- b) Nodwyd fanylion y bydd cyfyngiadau 30mya yn newid i 20mya o'r 17eg o Fedi 2023 – sef yn y rhan fwyaf o'r achosion.
- c) Nodwyd fanylion cynlluniau hyfforddiant i Gynghorwyr Cymuned gan Un Llais Cymru – ac y byddai y Clerc yn ei ddsbarthu i bawb.
- d) Nodwyd gyfarfod o Un Llais Cymru Meirionnydd ar zoom ar Nos Fercher 12fed Gorffennaf. Hefyd roedd llythyr gan Alun Wyn Evans, Cadeirydd Pwyllgor Meirionnydd yn pwysleisio pwysigrwydd hyn. Cadarnhaodd Meirion Roberts y byddai yn cymryd rhan.

8. Unrhyw fater arall.

- Byddai'r cyfarfod nesaf Nos Wener 1af Medi, a chadarnhawyd dyddiadau gweddill y flwyddyn sef 13/10/23, 8/12/23, 26/01/24, 8/03/24, a bod cadarnhad fod y Ganolfan ar gael ar gyfer y dyddiadau yma.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.45pm.